

Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad | <p>Enw: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru</p> <p>Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC</p> <p>e-bost/rhif ffôn: ucac@athrawon.com 01970 639950</p> <p>Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU</p> |
|---|---|

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **7 Tachwedd 2014** at:

Robert Hobbs
Yr Isadran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno y dylid pennu lefel y ffioedd yn ôl categorïau o ymarferwyr, h.y. athrawon ysgol, athrawon AB (darlithwyr), gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gweithwyr cymorth dysgu AB?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|--|----------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | x |
|---------------|--------------------------|------------------|--------------------------|--|----------|

Sylwadau ategol

Gan mai'r ddelfryd yw cael un corff cyffredin sy'n cynrychioli'r holl weithlu addysg, gellid dadlau mai un ffi gyffredin ddylid ei bennu ar gyfer pawb.

Ar y llaw arall mae enillion rhai gweithwyr addysg yn sylweddol llai nag enillion eraill, ee staff cymorth o gymharu â phenaethiaid yr ysgolion mwyaf, a byddai gofyn am yr un ffi safonol yn gyfran sylweddol uwch o gyflog garfan un o gymharu ag enillion y llall. Wedi dweud hynny, mae'r sylw yn y Ddogfen Ymgynghori at y penderfyniad i beidio *'gwahaniaethu rhwng ymarferwyr hynny sy'n gweithio'n llawn amser a'r rhai sy'n gweithio oriau rhan amser'* yn creu'r union un gagendor rhwng pobl o fewn yr union un swydd heb son am gymharu ar draws staff y gweithlu.

O gofio mai menywod yw'r mwyafrif llethol o staff cymorth, ac o athrawon rhan amser, mae potensial i'r mater hwn arwain at benderfyniad sy'n gwahaniaethu yn annheg ar sail rhyw.

Cwestiwn 2 - A ddylai Llywodraeth Cymru geisio diwygio'r *Ddogfen Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DCAAY)* er mwyn dileu'r cyfeiriad at y cymhorthdal presennol i athrawon mewn ysgol a gynhelir, er mwyn ailddosbarthu'r cymhorthdal ar draws y gweithlu cyfan, gan leihau'r ffi ar gyfer **pawb** a fydd yn cofrestru o 2016, fel yr awgrymir o dan fodel 1?

| | | | | | |
|--------------|--------------------------|------------------|----------|-----------------------|--------------------------|
| Dylai | <input type="checkbox"/> | Na ddylai | x | Ddim yn gwybod | <input type="checkbox"/> |
|--------------|--------------------------|------------------|----------|-----------------------|--------------------------|

Sylwadau ategol

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn nodi disgwyliadau a hawliau statudol. Mae'r cyfraniad tuag at y ffi yn hawl statudol ar hyn o bryd ac mae UCAC yn gwrthwynebu'r awgrym o geisio newid hawl cytundebol athrawon yn y modd hwn. Petai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud hyn mae'n debygol mai colli'r cymhorthdal yn gyfan gwbl byddai'n digwydd a byddai colli'r cymhorthdal hwn, felly, yn golled i bawb. Ni ddylai fod yn ystyriaeth. Mae'n amhriodol hefyd i geisio gymryd cymhorthdal sydd wedi ei bennu ar gyfer un carfan o'r gweithlu a'i ddefnyddio fel taliad dros eraill.

Cwestiwn 3 – Os na ellir **diwygio'r DCAAY**; neu os ydych o'r farn **na** ddylid diwygio'r **DCAAY**; a ydych yn cytuno bod model 2 yn fodel teg a phriodol er mwyn codi'r arian y bydd ei angen ar Gyngor y Gweithlu Addysg?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|----------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | x | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|--------------------------|------------------|----------|--|--------------------------|

Sylwadau ategol

Mae UCAC o'r farn ei bod yn amhriodol disgwyl i athrawon gyfrannu mwy na'r £12 presennol ac na ddylai categorïau eraill o staff gyfrannu mwy na hynny ychwaith.

Nodir yn y Ddogfen Ymgynghori mai un o briod swyddogaethau'r Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw 'cefnogi'r gweithlu addysg'. Barn gyffredinol ein haelodau yw nad yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ei rôl bresennol yn ddigon cefnogol i athrawon mewn cymhariaeth â chyrff sy'n cynrychioli proffesiynau eraill. Mae canran rhy uchel o amser ac adnoddau'r Cyngor presennol yn mynd at erlyn yn gyhoeddus, fygythiol, canran fechan iawn o unigolion. Mae angen i'r Corff newydd hwn, felly, brofi ei bod yn wirioneddol gefnogol i'r gweithlu addysg cyn mynnu mwy o bres o bocedi athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg. Mae'r cynnydd sy'n cael ei argymhell mewn ffioedd yn mynd i ddigwydd pan yw'r cynnydd cyflog i athrawon o dan lefel chwyddiant a heb fod yn ddigonol i gwrdd â'r cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn (a chynnydd cysylltiedig hefyd mewn taliadau Yswiriant Cenedlaethol ym Mawrth 2016) heb sôn am ddim arall.

Cwestiwn 4a – Os na fydd yr arian ar gyfer y cymhorthdal bellach ar gael, bydd angen model 3. A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai'r ffioedd fod yn seiliedig ar opsiwn 4 y tabl, fel y nodir ar dudalennau 12-13 o'r ymgynghoriad?

| | | | | | |
|---------------|--------------------------|------------------|----------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input type="checkbox"/> | Anghytuno | x | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|--------------------------|------------------|----------|--|--------------------------|

Cwestiwn 4b – Os ydych yn anghytuno â defnyddio opsiwn 4 ym model 3, nodwch pa opsiwn fyddai'n fwy dymunol drwy roi tic yn y blwch perthnasol yn y tabl isod:

| Opsiwn Ffioedd | Athrawon Ysgol ac Athrawon AB | Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion a Gweithwyr Cymorth Dysgu AB | |
|----------------|-------------------------------|--|--------------------------|
| 1 | £71 | £15 | <input type="checkbox"/> |
| 2 | £68 | £20 | <input type="checkbox"/> |
| 3 | £65 | £25 | <input type="checkbox"/> |
| 4 | £62 | £30 | <input type="checkbox"/> |
| 5 | £58 | £35 | <input type="checkbox"/> |
| 6 | £55 | £40 | <input type="checkbox"/> |
| 7 | £52 | £45 | <input type="checkbox"/> |
| 8 | £49 | £49 | <input type="checkbox"/> |

Sylwadau ategol

Mae hi'n arfer cyffredin iawn i gyflogwyr dalu ffioedd cofrestru eu gweithwyr fel rhan o'r pecyn 'buddiannau'. Cred UCAC ei bod hi'n gwbl rhesymol i gyflogwyr dalu unrhyw gynnydd mewn ffioedd athrawon (a ffioedd gweddill y gweithlu addysg) yn sgil sefydlu'r CGA.

Cwestiwn 5 – O gael dewis, pa fodel ffioedd fyddai'n well gennych?

| | | | | | |
|----------------|--------------------------|----------------|--------------------------|----------------|--------------------------|
| Model 1 | <input type="checkbox"/> | Model 2 | <input type="checkbox"/> | Model 3 | <input type="checkbox"/> |
|----------------|--------------------------|----------------|--------------------------|----------------|--------------------------|

Sylwadau ategol

Gweler y sylwadau uchod.

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Byddai UCAC yn hoffi cael gweld sut mae'r cyfanswm amcangyfrifedig o £3.5 miliwn wedi ei gyfrifo er mwyn gweld faint yn union o'r arian yma sydd ei angen ar gyfer y broses o gynnal cofrestr o'r gweithlu a faint sydd wedi cael ei glustnodi at y '*cyunnydd posibl yn nifer yr achosion disgyblu*'.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

